
**Rhif**: **1**

**Rhif y Cais / Application Number : C12/1529/35/AM**

Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.
Location Plan for identification purposes only. Not to scale.



| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C12/1529/35/AM |
| Dyddiad Cofrestru: | 07/01/2015 |
| Math y Cais*:* | Amlinell |
| Cymuned*:* | Criccieth |
| Ward: | Criccieth |

| | |
|---|---|
| Bwriad: | CAIS AMLINELLOL I GODI 4 TY ANNEDD, 1 TY FFORDDIADWY A CHREU MYNEDFA GERBYDOL NEWYDD (CYNLLUN DIWYGIEDIG ER MWYN DARPARU TY FFORDDIADWY) / |
| Lleoliad: | TIR YNG NGHEFN WHITEHOUSE, LON TYNLLAN, CRICCIETH, GWYNEDD |

| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | DIRPRWYO'R HAWL I GANIATAU YN DDAROSTYNGEDIG I ARWYDDO CYTUNDEB 106 AC AMODAU |
|---|---|

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais amlinellol yw hwn i godi pum tŷ preswyl deulawr ar lain o dir i gefn annedd White House sydd wedi ei leoli ar hyd ffordd ddi-ddosbarth Ty'n Llan ym mhentref arfordirol Criccieth. Yn wreiddiol roedd y cais i godi pedwar tŷ. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau am anghenion polisi a'r angen i ddarparu tai fforddiadwy, derbyniwyd cynllun diwygiedig ar gyfer codi pum tŷ gydag un o'r plotiau yn fforddiadwy.

1.2 Mae'r tir yn ffurfio rhan o erddi sylweddol a chwrt tennis y White House. Erbyn heddiw mae'r tir wedi gordyfu ac mae'n amlwg nad oes defnydd wedi bod yn y darn yma o dir ers rhai blynyddoedd. Mae'r llain o dir wedi ei leoli ar lethr gyda thai i'r cefn a'r ochr ar lefel dipyn uwch na'r safle. Mae'r safle o fewn ffin datblygu Criccieth.

1.3 Mae'r cais yn un amlinellol, felly nid oes cynlluniau manwl o'r tai ond mae'r cais yn dangos gosodiad a maint dangosol. Er hynny, mae'r mynediad i'r safle yn ffurfio rhan o'r cais. Byddai mynediad i'r safle ar hyd lon mynediad newydd rhwng y White House a Hendre Wen ac yn arwain oddi-ar ffordd ddi-ddosbarth Tyn Llan sydd hefyd yn cysylltu i'r brifford A497.

1.4 Mae'r wybodaeth ganlynol wedi ei gyflwyno gyda'r cais:

- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Datganiad effaith Ieithyddol a Chymunedol
- Datganiad Cartrefu Fforddiadwy
- Asesiad Coed

1.5 Cyflwynir y cais yma i bwyllgor oherwydd bod maint y datblygiad arfaethedig yn fwy na'r hyn a ellir ei ddelio â fo o dan y drefn ddirprwyedig.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol a'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

## 2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:

POLISI A1 - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL NEU ASESIADAU EFFEITHIAU ARALL
Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

POLISI A2 - GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU
Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

POLISI B19 - COED, COEDLANNAU A GWRYCHOEDD A SY'N CAEL EU GWARCHOD
Caniatáu cynigion fydd yn golygu colli neu ddifrod i goeden, coedlan neu wrych sy'n cael eu gwarchod dim ond pan fydd buddion economaidd a/neu gymdeithasol y datblygiad yn gwrthbwyso unrhyw niwed.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU
Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd leol.

POLISI B23 - MWYNDERAU
Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU
Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI C1 - LLEOLI DATBLYGIAD NEWYDD
Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun.

POLISI CH4 - TAI NEWYDD AR SAFLEOEDD SYDD HEB EU DYNODI O FEWN FFINIAU DATBLYGU CANOLFANNAU LLEOL A PHENTREFI
Caniatáu cynigion i adeiladu tai newydd ar safleoedd sydd heb eu dynodi o fewn ffiniau Canolfannau Lleol a Phentrefi os gelli'r cydymffurfio â meini prawf syn anelu i sicrhau elfen fforddiadwy o fewn y datblygiad.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD
Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI CH36 - CYFLEUSTERAU PARCIO CEIR PREIFAT
Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor, gan roi ystyriaeth i hygyrchedd gwasanaeth

cludiant cyhoeddus, y gallu i gerdded a beicio o safle a phellter y safle at faes parcio cyhoeddus.

Yn ychwanegol i bolisïau CDUG, rhoddir ystyriaeth lawn i Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) mabwysiedig yr Awdurdod sydd yn ystyriaeth faterol a pherthnasol. Yn yr achos yma, ystyrir fod y canlynol yn berthnasol:

- Tai fforddiadwy
- Cynllunio a'r Iaith Gymraeg
- Canllawiau Dylunio Gwynedd

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7, Gorffennaf 2014

Nodyn Cyngor Technegol (NCT)

- NCT 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy
- NCT 12: Dylunio
- NCT 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:** Dim

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cefnogi ar y amod fod Adran Priffyrdd y Cyngor yn hapus gyda'r fynedfa. |
| Uned Trafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad i'r bwriad - mynediad trwy eiddo presennol gyda mynediad boddhaol o'r ffordd stad fabwysiedig, a darpariaeth parcio ddigonol o fewn y cwrtil. Cynnig amodau. Heb dderbyn sylwadau mewn ymateb i'r cynlluniau diwygiedig. |
| Dwr Cymru: | Cyngor safonol a chynnig amodau perthnasol. |
| Uned Coed: | Dim gwrthwynebiad i'r cynllun gwreiddiol na diwygiedig. Angen gosod amodau yn ymwneud a chyflwyno cynllun gwaith fel diweddariad i'r adroddiad coed a chynllun tirlunio. |
| Tai Fforddiadwy: | Dim gwrthwynebiad. Sylwadau yn cadarnhau anghenion ar gyfer tai fforddiadwy yng Ngwynedd a maint tai fforddiadwy.<br>Byddai angen ystyried rhoi disgownt o tua 30% os nad yw'r tŷ yn fforddiadwy yn barod. |

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth cyfnod hysbysebu cyntaf i ben a derbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu ar sail:

- Dwysedd y datblygiad yn groes i dai cyfagos.
- Uchder y tai.

Derbyniwyd un llythyr yn cefnogi'r cynllun.

Yn sgil derbyn cynlluniau diwygiedig fe ail ymgynghorwyd gyda'r cyhoedd a derbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu ar sail:

- Dwysedd y datblygiad yn groes i dai cyfagos.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae polisïau C1 a CH4 o GDUG yn berthnasol i'r cais hwn. Mae polisi C1 yn ymwneud â lleoli datblygiadau newydd, prif ffocws y polisi yw cefnogi datblygiadau o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi. Mae safle'r cais tu fewn i ffin datblygu Criccieth, felly mae'r cais yn unol â pholisi C1. Mae polisi CH4 yn caniatáu codi tai newydd ar safleoedd sydd heb eu dynodi o fewn ffiniau datblygu canolfannau lleol a phentrefi os ydi'r bwriad yn cwrdd â meini prawf y polisi.

5.2 Mae polisi CH4 yn chwilio i safleoedd ddarparu canran o unedau fforddiadwy oni bai, ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol i gyd, na fyddai'n briodol i ddarparu tai fforddiadwy ar y safle. Yn wreiddiol roedd y cais yma ar gyfer pedwar tŷ marchnad agored heb unrhyw ddarpariaeth o dai fforddiadwy. Yn dilyn trafodaethau derbyniwyd cynllun diwygiedig i godi pum tŷ gyda darpariaeth o un tŷ fforddiadwy. Ystyrir fod y cyfran o unedau fforddiadwy yn dderbyniol ac felly yn cwrdd ag anghenion polisi CH4. Mae'r Uned Strategol Tai wedi cydnabod anghenion tai fforddiadwy yng Ngwynedd ac anghenion meintiau tai fforddiadwy. Er hynny mae'r cais dan sylw yn un amlinellol ac mae maint y tŷ a gynigir fel uned fforddiadwy yn ddangosol yn unig. Bydd rhaid asesu maint y tŷ, nifer o lofftydd a'i addasrwydd fel tŷ fforddiadwy yn ystod y cais am faterion a gadwyd yn ôl.

5.3 Ystyrir felly fod egwyddor y cais yn dderbyniol ac yn unol â pholisïau C1 a CH4.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.4 Mae polisï B23 yn berthnasol i'r agwedd yma o'r cais. Mae polisi B23 yn datgan dylid gwrthod cynigion fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth leol. Mae'r bwriad yn golygu ymestyn y dreif presennol rhwng y White House a Hendre Wen er mwyn creu lon mynediad i'r safle, mae hyn yn golygu fod y datblygiad yma yn fath o ddatblygiad tir cefn (backland). Er hynny, nid yw hyn yn rheswm yn ei hun i wrthod y cais os na fydd y bwriad yn niweidiol fel arall. Cydnabyddir bydd rhyw faint o aflonyddwch sŵn ychwanegol yn deillio pe caniateir y datblygiad ar sail symudiadau dyddiol i mewn ac allan o'r safle ei hun, er hyn, credir na fydd o raddfa annerbyniol a sylweddol gan ystyried fod anheddau preswyl eisoes yn bodoli o gwmpas y safle ac agosrwydd y safle i'r A497 sydd yn lôn brysur.

5.5 Mae materion yn ymwneud â dylunio, gorffeniadau ag edrychiadau yn faterion y rhoddir ystyriaeth iddynt wrth ddelio a chais manwl neu gais materion a gadwyd yn ôl. Er bod awgrymiad wedi ei roi gan yr asiant mai uchafswm uchder y tai fydd 7 medr mi fydd uchder gorffenedig y tai yn ogystal â lleoliad ffenestri yn ystyriaeth

faterol wrth benderfynu ar gais materion a gadwir yn ôl, ystyrir unrhyw effaith yn ymwneud a gor-edrych er enghraifft, pan gyflwynir cynlluniau manwl, a sicrheir y bydd gofynion polisi B23 yn cael eu bodloni. Er hynny mae'r asiant wedi cyflwyno trawstoriadau a manylion lefelau er mwyn dangos y byddai'n bosib gosod a dylunio'r tai heb achosi gor-edrych a cholli preifatrwydd afresymol i'r tai cyfagos. Er y gwrthwynebiad i'r cais, ni ystyrir bod datblygiad o bum tŷ ar y safle yma yn or-datblygiad nac yn hollol groes i batrwm datblygu a dwysedd tai yn y rhan yma o Griccieth. Mae'r cynllun hefyd yn gadael digon o gwrtil a lle parcio ar gyfer y White House a Bwythyn y White House.

5.6 Nid yw Polisi B22 yn gwbl berthnasol i gais amlinellol gan ei fod yn ymwneud gyda 'Dyluniad Adeiladau' ac yn gofyn parchu'r safle o safbwynt graddfa, maint, ffurf, dwysedd lleoliad, cynllun ac ati; i beidio cael effaith andwyol annerbyniol ar ffurf a chymeriad y drefwedd nac ar olygfeydd amlwg gan y cyhoedd. Er hyn, mae'r cais yn gofyn am gytuno ar y mynediad ac fe ystyrir bydd y mynediad yn dderbyniol yng nghyd-destun y polisi gan y byddai'r ffurf, dwysedd a chynllun yn dderbyniol o ystyried y safle a'i gyffiniau. Ni chredir y byddai effaith andwyol annerbyniol ar ffurf a chymeriad y drefwedd o ganlyniad na cholli unrhyw olygfeydd amlwg. Wrth gwrs bydd gweddill yr agweddau dylunio yn destun amod i'w cymeradwyo drwy gais materion a gadwyd yn ôl.

5.7 Oherwydd lleoliad y safle ac er bod amrywiaeth i'r math, maint, dyluniad a gorffeniadau o dai cyfagos, rhaid sicrhau y bydd yn ddatblygiad o safon dylunio uchel, a thrwy wneud hynny gellir sicrhau fod gofynion polisïau B22 a B23 yn cael eu bodloni drwy osod amodau cynllunio priodol.

5.8 Yn ei gyfanrwydd, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol o safbwynt aflonyddwch, colli preifatrwydd, colli golau na chysgodi. Mae pryderon y gwrthwynebwyr wedi eu cydnabod ac wedi derbyn ystyriaeth lawn ond ystyrir fod y datblygiad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda pholisi B22 a B23 o'r CDU.

**Mwynderau gweledol**

5.9 Gan mai cais amlinellol yw hwn ni dderbyniwyd unrhyw fanylion ynghylch dyluniad arfaethedig y tai ar wahân i'w maint a'u huchder. Derbyniwyd cynllun yn dangos trefniant y safle gan gynnwys lleoliad y tai a'r trefniant ar gyfer trafnidiaeth. Oherwydd lleoliad y safle ymysg tai eraill, ni chredir y byddai effaith andwyol annerbyniol ar ffurf a chymeriad y drefwedd. Ystyrir bod trefniant cyffredinol y safle'n dderbyniol, bod dwysedd y datblygiad yn dderbyniol, bod maint y tai yn addas o safbwynt uchafswm graddfa, a'i fod yn bosib, trwy amodau a thrwy ystyried cais/ceisiadau am fanylion llawn, reoli gweddill manylion y datblygiad. Ystyrir felly bod y cais yn cwrdd gyda gofynion polisïau B22, B23 ac B25 y CDU.

**Materion Coed**

5.10 Mae polisi B19 yn gwarchod coed, coedlannau a gwrychoedd. Mae'r coed i ochr ddwyreiniol y safle yn cael eu gwarchod trwy orchymyn diogelu coed. Fel rhan o'r cais derbyniwyd asesiad coed gan arbenigwr. Gydag amodau priodol er mwyn diogelu'r coed, nid oedd gan Swyddog Coed y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.11 Mae Polisïau CH33 a CH36 yn ymwneud gyda diogelwch ar ffyrdd a strydoedd a chyfleusterau parcio ceir preifat. Mae'r uned trafnidiaeth wedi ymateb i'r ymgynghoriad ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad. Mae'r cynllun a gyflwynwyd yn dangos y gellir darparu man troi a digon o lecynnau parcio ar gyfer

cerbydau oddi mewn i'r safle sydd yn bodloni gofynion polisi CH36. Gydag amodau, ystyrir fod agwedd yma o'r bwriad yn unol â Pholisi CH33 a CH36 CDU.

**Materion Ieithyddol**.

5.12 Mae Polisi A2 yn datgan y gwrthodir cynigion a fyddai oherwydd eu maint, eu graddfa neu eu lleoliad yn achosi niwed arwyddocaol i gydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau. Yn unol â'r canllaw cynllunio atodol Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, cyflwynwyd asesiad ardrawiad cymunedol ac ieithyddol gyda'r cais a gynhwysai gwybodaeth benodol ynglŷn a'r ardal a phoblogaeth leol ag effaith y datblygiad ar faterion perthnasol. Mae'r adroddiad yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'r ystyriaeth y dylid ei roi i'r holl ystyriaethau perthnasol.

5.13 Oherwydd lleoliad y datblygiad, mae'n debyg bydd y datblygiad yn cyfrannu mewn modd positif i'r gymuned. Ond, oherwydd natur a lleoliad y datblygiad hwn i ffwrdd o lefydd twristiaeth / forwrol, ni ragwelir y byddai'r datblygiad yn denu prynwyr yn chwilio am ail gartref ac mae'n annhebygol o gael effaith niweidiol ar y gymuned. I'r perwyl hyn ni chredir fod y bwriad yn groes i Bolisi A2 gan na ystyrir y bydd pwysau ar yr iaith nac effaith negyddol ar y gymuned. Mae hyn hefyd yn unol gyda'r Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.

**6. Casgliadau:**

6.1 Ar sail yr asesiad uchod ac wedi ystyried yr holl faterion perthnasol gan gynnwys y gwrthwynebiad, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i'r polisïau na'r canllawiau lleol a chenedlaethol a nodir o fewn yr asesiad ac nad oes unrhyw faterion cynllunio perthnasol eraill sy'n datgan i'r gwrthwyneb. Ar sail yr uchod credir fod y bwriad yn dderbyniol yn ddarostyngedig i amodau perthnasol.


**7. Argymhelliad:**

7.1 Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd gwblhau Cytundeb 106 yn ymwneud a darparu tŷ fforddiadwy ar gyfer angen lleol cyffredinol ac amodau cynllunio perthnasol yn ymwneud gyda:

1. 5 mlynedd
2. Cyflwyno materion a gadwyd yn ôl o fewn tair blynedd.
3. Deunyddiau a gorffeniadau.
5. Mynediad a pharcio.
5. Tirweddu
6. Tynnu hawliau datblygu a ganiateir.
7. Dwr Cymru
8. Diogelu coed.
9. Datblygiad yn cydymffurfio gyda chynlluniau a gymeradwywyd.

**Rhif y Cais / Application Number : C12/1529/35/AM**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**





Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey
gyda chaniatâd yr Ordnance Survey
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri
hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

This map is reproduced from Ordnance Survey material
with the permission of Ordnance Survey
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright
and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

CYNLLUN LLEOLIAD


TIR GER THE WHITEHOUSE, LÔN TY'N LLAN, CRICCIETH LL52 0LF




Graddfa 1:2500 (A3)

CYNLLUN DIWYGIEDIG
*REVISED PLAN*

Derbyniwyd/*Received* ........ 7/1/15.
Llofnod/*signature* ........ K.S




CYNGOR GWYNEDD
CYFADRAN YR AMGYLCHEDD
7 ION 2015
GWASANAETH CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH
D rhif tracio..........................

CYNLLUN DIWYGIEDIG
REVISED PLAN
Derbyniwyd/Received 7/1/15
Llofnod/signature KS


Ap Thomas Cyf.
Unit 13b
Llys Onnen
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4DF
01248 670353
www.ap-thomas.com
info@ap-thomas.com

© This drawing is copyright of Ap Thomas Cyf. and must not be copied or reproduced in any format in whole or part thereof without written consent.


| | |
|---|---|
| DATE : 20.10.2014 | SCALE : 1:500 |
| DRAWN: RWJ | CHECKED: AMJ |
| JOB. | Datblygiad Tir ger The White House Cricieth |
| DRG. | Cynllun Safle Bwriededig |

| JOB NO. | DRG. REF. | REV. |
|---|---|---|
| 5097 | (91) 01 | A |

CYNLLUN DIWYGIEDIG
REVISED PLAN
Derbyniwyd/Received 7/1/15
Llofnod/signature K-S




**Toriad A - a**





**Toriad B - b**

CYNGOR GWYNEDD
CYFADRAN YR AMGYLCHEDD
27 ION 2015
GWASANAETH CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH
D rhif tracio........................

Ap Thomas Cyf.
Unit 13b
Llys Onnen
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4DF
01248 670353
www.ap-thomas.com
info@ap-thomas.com

© This drawing is copyright of Ap Thomas Cyf and must not be copied or reproduced in any format in whole or part thereof without written consent.

| | |
|---|---|
| DATE : 20.10.2014 | SCALE : 1:200 |
| DRAWN: RWJ | CHECKED: AMJ |
| JOB. Datblygiad Tir ger The White House Cricieth | |
| DRG. Toriadau Safle Bwriededig | |
| JOB NO. 5097 | DRG. REF. (91) 05 — REV. - |





CYNLLUN DIWYGIEDIG
REVISED PLAN
Derbyniwyd/Received 7/1/15
Llofnod/Signature



CYNGOR GWYNEDD
CYFADRAN YR AMGYLCHEDD
- 7 ION 2015
GWASANAETH CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH
D rhif tracio



Ap Thomas Cyf.
Unit 13b
Llys Onnen
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4DF
01248 670353
www.ap-thomas.com
info@ap-thomas.com



© This drawing is copyright of Ap Thomas Cyf. and must not be copied or reproduced in any format in whole or part thereof without written consent


| | |
|---|---|
| DATE : 20.10.2014 | SCALE : 1:500 |
| DRAWN: RWJ | CHECKED: AMJ |
| JOB. Datblygiad Tir ger The White House Cricieth | |
| DRG. Cynllun Safle Presennol | |

| JOB NO. | DRG. REF. | REV. |
|---|---|---|
| 5097 | (90) 01 | * |